**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 15 o Awst 2023 AM 19:00 DRWY ZOOM.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Alan Pritchard, Gwynedd Williams, Hefin Jones, Ann Lawton, Philip Roberts, Rhys Parry, Beca Brown.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Berwyn Parry Jones, Avril Jones, Richard Robinson

**CLERC:** Meirion Jones

**AELODAU O'R CYHOEDD:** Neb

**1186. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd am bresenoldeb yr aelodau

**1187 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1188. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1189. I gadarnhau cofnodion cyfarfod 18 Gorffennaf 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1190. Unrhyw fater yn codi o gofnodion cyfarfod 18 Gorffennaf 2023**

Dim

**1191. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent.**

Adroddodd y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent

Cais Mynwent y Flwyddyn (adran Cynghorau Tref a Chymunedau) Y D.U.,2023 y cais yn un o dri diwethaf yn y gystadleuaeth gyda'r canlyniad i'w cyhoeddi mewn seremoni 19.9.23.

Ar 24 o Orffennaf 2023 y pwyllgor wedi cyfarfod gyda chynrychiolydd Elusen Dyffryn Peris yn y fynwent i ddiolch yn ffurfiol am y grant i bwrcasu hysbysfwrdd. Bydd adroddiad yn ymddangos yn y wasg ac ar lein

Disgwyl arwyddion yn y fynwent (wedi archebu) a pholisi ddrafft cofebion (wedi ei ysgrifennu; gyda'r cyffeithydd).

Cyfarfodydd nesaf yr is-bwyllgor

Asesiad risg-gwaith yn y fynwent : newid dyddiad o 19.8.23. i 4-6.9.23.
Is-bwyllgor 11.9.23 (6 p.m. Y Fynwent)

Torri gwair (diweddariad gyda'r contractwr): dyddiad i'w drefnu.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a llongyfarchwyd y pwyllgor am ei gwaith yn y fynwent i sicrhau fod mynwent Llanrug ar y brig ar draws y Deyrnas Unedig. Cadeirydd y pwyllgor a'r Clerc i fynychu'r seremoni wobrwyo

**1192. I dderbyn diweddariad am ddifrod i gae chwarae Dolafon.**

Adroddwyd fod difrod wedi cael ei achosi i gae chwarae Dolafon. Nodwyd fod ein contractwr wedi bod yn clirio'r gwaith.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a nodwyd fod y math yma o ymddygiad yn siomedig ond fod y mater bellach wedi cael sylw a penderfynwyd peidio cymryd camau pellach ond cadw golwg ar y sefyllfa.

**1193. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddiwrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Cwm y Glo a Llanrug ar Gyngor Gwynedd.**

Adroddiad i ddilyn

**1194. I drefnu dyddiadau archwilio meysydd chwarae.**

Adroddwyd yn dilyn derbyn yr asesiad risg am y meysydd chwarae fod angen i aelodau o'r Pwyllgor Hamdden gyfarfod ar y meysydd chware ac adnabod beth sydd angen sylw. Byddai yn ddelfrydol cael ein contractwr yn bresennol yn ogystal.

**Penderfynwyd:** Awgrymwyd y dyddiadau canlynol sef 29, 30 a 31 o Awst

**1195. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C23/0460/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad unllawr at gefn a blaen yr eiddo.
**Ymgeisydd:** Mrs Sally Chisolm
**Asiant:** Mr H Gareth Jones (BDS Gwynedd)
**Cyfeiriad:** Pen Draw Ffordd Clegir, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd,

LL55 4EH
**Cyfeirnod Grid:** 255555.43, 361227.83
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**b) Rhif y Cais:** C23/0523/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais Cynllunio Newid Defnydd ar gyfer Cabanau Moethus a Podiau gyda tymor 12 mis yn Seiont Riverside Camping. Yn Cynnwys: 14 Cabanau Gwyliau Moethus, 5 Pod Moethus, Creu llyn bywyd gwyllt, tirlunio a plannu coed a llwyni brodorol, llwybr mynediad ar hyd pont newydd dros Afon Seiont (croesffordd rheilffordd hanesyddol) a llwybr mynediad argyfwng a tymor 12 mis.
**Ymgeisydd:** Adam Hummel
**Asiant:** Mr Jonathan Moore Lambe
**Cyfeiriad:** Riverside Campsite, Riverside Ffordd Llanberis, Rhosbodrual, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BB
**Cyfeirnod Grid:** 250826.22, 362805.2
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cymeradwyo'r cais ar yr amod fod yr hyn a adnabyddir gan yr Asiantaethau yn cael eu cymeradwyo

**C) Rhif y Cais:** C23/0514/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad i fodurdy
**Ymgeisydd:** Mr & Mrs Griffiths
**Asiant:** Mr Alan Owen (A.L.I Buiding Design)
**Cyfeiriad:** Land At Ty Isaf , Ceunant, LL55 4RY
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**D) Rhif y Cais:** C23/0552/23/DA
**Math o Gais:** Diwygiad Ansylweddol
**Bwriad:** Diwygiad ansylweddol i ganiatâd rhif C23/0239/23/DT er cynyddu maint drysau patio, ail leoli ffenestri to a cadw drws ffrynt yn lleoliad gwreiddiol.
**Ymgeisydd:** Mr Yates
**Cyfeiriad:** Bwlch Cottage Lôn Bwlch, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4ED
**Cyfeirnod Grid:** 254932.27, 362266.5
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**1196.** **Fod y cyngor yn cefnogi ymgyrch Cymdeithas yr Iaith am Ddeddf Eiddo gynhwysfawr deg. (Cyng Hefin Jones)**

**Penderfynwyd:** Fod y cyngor yn cefnogi amcanion Cymdeithas yr Iaith ac fod y Cynghorydd hefin Jones yn cynrychioli'r cyngor mewn unrhyw gyfarfodydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:25

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 19 o Fedi 2023